

## Ffesydd o waith dyn mewn mawndir



Mae gwaith adfer mawndiroedd yn hanfodol ar gyfer dyfodol cwtiaid aur.

### Eisiau gwybod mwy?

Ewch i wefan yr RSPB a chwiliwch am:

[Blog 'Saving golden plover in Wales' \(2017\)](#)

[Blog 'Stori Moel y Gaseg Wen' \(2017\)](#)

[RSPB golden plover factsheet](#)

### Beth fedrwn chi ei wneud

**RSPB food and farming:**  
[rspb.org.uk/get-involved/campaigning/campaign-with-us/food-and-farming.aspx](https://www.rspb.org.uk/get-involved/campaigning/campaign-with-us/food-and-farming.aspx)

**Helpwch fywyd gwyllt ar eich tir:**  
[farmwildlife.info](https://www.farmwildlife.info)

**Cefnogwch Rwydwaith Ffermio er Lles Natur fel ffermwr neu fel aelod o'r cyhoedd:** [nffn.org.uk/](https://www.nffn.org.uk/)

Yr RSPB yw elusen gadwraeth natur fwyaf y DU, ac mae hi'n ysbrydoli pawb i roi cartref i fyd natur.

[www.rspb.org.uk](https://www.rspb.org.uk)

Llun y clawr: cwtiaid aur gan Andy Hay (rspb-images.com)

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, yn yr Alban SC037654.



rspb

yn rhoi  
cartref i  
fyd natur

giving  
nature  
a home

Cymru

# Prosiect cadwraeth Cwtiaid aur



Rhostiroedd Gogledd Cymru



Mae'r RSPB yn cyd-weithio gyda phartneriaid cadwraeth, ffermwyr a rheolwyr tir eraill i weithredu mesurau i greu dyfodol gwell i'r cwtiad aur, sef rhywogaeth â blaenoriaeth ar gyfer cadwraeth yng Nghymru. Mae poblogaethau o gwtiaid aur sy'n nythu bellach wedi'u sefydlu yng Ngogledd Cymru ar draws safleoedd a oedd unwaith yn eu cynnal/lle na welwyd nhw'n nythu yn y gorffennol.

Andy Hay (rspb-images.com)

**Cwtiad aur yn yn ei guddliw hardd yn cysgodi ymysg yr isdyfiant.**

## Y broblem:

**Dros y 50 mlynedd diwethaf, mae niferoedd y cwtiad aur wedi gostwng ac mae maint yr ardaloedd hynny lle maen nhw'n nythu wedi crebachu.**

Yn 2007, awgrymodd arolwg mai dim ond 36 o barau oedd yng Nghymru - y rhan fwyaf o'r rhain ar ar yr Elenydd (Mynyddoedd Cambria).

Mae tirdraeniad hanesyddol o orgorsydd a diffyg pori o gynefinoedd yn yr ucheldir wedi'u cysylltu â'r dirywiad mewn niferoedd.

Mae hyn yn golygu bod llystyfiant tal, bras, twmpathog yn tyfu, sy'n cyfyngu ar allu'r adar i fwydo ac i nythu. Mae cwtiaid aur hefyd yn bwyta llawer o bryfed cannyll ac mae niferoedd y pryfed hyn yn lleihau wrth i fawndiroedd sychu yn sgil tirdraenio ac erydiad.

## Y gwaith a wnaed:

Mae gwaith adfer mawndiroedd a chyflwyno systemau pori cymysg priodol yn hanfodol i wrthdroi'r dirywiad. Mae'r RSPB wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill i:

- Dorri tua 120 hectar o llystyfiant i greu mannau gyda thyfiant byr ar gyfer nythu a mannau eraill gyda thyfiant uwch er mwyn cynnig lloches i'r adar.
- Hyrwyddo'r defnydd o wartheg pori er mwyn rheoli llystyfiant sydd wedi gordyfu.
- Siapio ymylon 16 o byllau ar rostir i'w gwneud yn haws i adar fyned iddynt.
- Cau ffosdyllau a thua 4,000 metr o ffosydd draenio ar y rhostir, fel y gall y mawndir ddal mwy o ddŵr.
- Mae ail-wlychu'r orgors yn gwella ansawdd dŵr, yn lleihau perygl o lifogydd ac yn cynyddu'r nifer o bryfed mae'r adar yn bwydo arnynt.

Geraint Davies



**Defnyddir gwartheg pori i reoli llystyfiant sydd wedi gordyfu.**

Martin Clift



**Defnyddir peiriannau i siapio ymylon pyllau er mwyn ei wneud yn haws i adar fyned iddynt i fwydo.**

## Y dyfodol:

Mae cynefinoedd yn yr ucheldir yn bwysig nid yn unig ar gyfer y cwtiad aur, ond hefyd ar gyfer rhywogaethau eraill fel y gylfinir a'r rugiar goch. Mae'r cynefinoedd hyn sydd wedi'u rheoli'n dda hefyd yn helpu i wella ansawdd dŵr yfed trwy hidlo'r dŵr yn naturiol, storio mwy o garbon yn y pridd gan helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau'r perygl o lifogydd yn y cymoedd. Dylai polisïau yn y dyfodol annog y cymysgedd cywir o reoli tir gan gynnwys pori gwartheg ac adfer cynefinoedd.

**"Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn wella'r cynefin ar gyfer cwtiaid aur. Rydym wedi gweld effaith cyflwyno gwartheg i'r bryn yn syth gyda pharau yn nythu bellach mewn mannau nad oeddynt yn nythu yn y gorffennol."**

Geraint Davies, Fedw Arian Uchaf